

A close-up photograph of a family. A man with dark hair and a beard, wearing a white and pink striped shirt, is smiling and looking down at a laptop. A woman with long brown hair is leaning in from the right, looking at the screen. A baby with dark hair is sitting in front of them, also looking at the laptop. The background is a plain, light-colored wall.

Absenoldeb
ar y Cyd i
Rieni

Canllaw cyflym



Mae bod yn rhiant yn brofiad cyffrous sy'n rhoi boddhad mawr i chi. Gall fod yn gyfnod heriol hefyd, wrth i chi geisio cael cydbwysedd rhwng gofynion eich gwaith a gofal plant.

Mae'r NASUWT wedi ymrwymo i'ch cefnogi chi, gan sicrhau eich bod yn cael y cyngor fydd ei angen arnoch chi ynglŷn â'r hyn fydd Absenoldeb ar y Cyd i Rieni yn ei olygu i chi a'ch partner.

Mae'r canllaw cyflym hwn yn rhoi gwybodaeth allweddol i chi am eich hawliau yn y gwaith o ran Absenoldeb ar y Cyd i Rieni.

Mae Absenoldeb ar y Cyd i Rieni yn rhoi hyblygrwydd i chi a'ch partner benderfynu beth yw'r trefniant gorau o ran gofalu am eich plentyn yn ystod ei flwyddyn gyntaf.

Mae'n eich galluogi chi â'ch partner i rannu hyd at 50 o'r 52 wythnos o Absenoldeb Mamolaeth/Absenoldeb Mabwysiadu y mae gan y fam/eich partner yr hawl i'w gael.

Argymhellir eich bod yn cael sgwrs â'ch cyflogwr mor fuan â phosib ynghylch yr hyn rydych chi a'ch partner yn bwriadu ei wneud o ran Absenoldeb ar y Cyd i Rieni.

I fod yn gymwys i gael Absenoldeb ar y Cyd i Rieni, mae'n rhaid i chi neu'ch partner fodloni'r canlynol:

- mae gennych chi gontract cyflogaeth;
- mae gennych chi'r hawl i gael Absenoldeb Mamolaeth/ Absenoldeb Mabwysiadu Statudol a/neu Dâl Mamolaeth/ Mabwysiadu Statudol neu Lwfans Mamolaeth;
- rydych chi'n rhannu'r prif gyfrifoldeb dros ofalu am y plentyn â phartner/cyd-fabwysiadwr;
- rydych chi wedi rhoi gwybod i'ch cyflogwr eich bod yn bwriadu dod â'ch Absenoldeb Mamolaeth/Mabwysiadu i ben yn gynnar ('rhybudd cwtogi');
- rydych chi'n cael eich cyflogi gan gyflogwr ers o leiaf 26 wythnos erbyn y 15fed wythnos cyn dyddiad disgwylidig yr enedigaeth (neu'r dyddiad y cawsoch eich paru â'ch plentyn mabwysiedig) ac rydych chi'n dal yn cael eich cyflogi ganddynt ('prawf parhad cyflogaeth');
- rydych chi wedi pasio'r 'prawf cyflogaeth ac enillion' sy'n profi eich bod yn cael eich cyflogi neu'n hynangyflogedig ym Mhrydain a Gogledd Iwerddon ers cyfanswm o 26 wythnos yn ystod y 66 wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'r plentyn gael ei eni ac wedi ennill o leiaf £30 yr wythnos ar gyfartaledd (o fis Mawrth 2016 ymlaen) yn ystod unrhyw 13 wythnos.

Os ydych chi a'ch partner yn bodloni'r gofynion hyn, bydd y ddau ohonoch yn gymwys i gael Absenoldeb ar y Cyd i Rieni.

Bod yn gymwys ar gyfer Absenoldeb ar y Cyd i Rieni



Polisiau Absenoldeb ar y Cyd i Rieni



Efallai bod gan eich cyflogwr bolisi Absenoldeb ar y Cyd i Rieni sy'n well na'r hawliau statudol.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen eich contract cyflogaeth ac yn gofyn am gopi o bolisi Absenoldeb ar y Cyd i Rieni eich cyflogwr.

Os oes gan eich cyflogwr bolisi Absenoldeb ar y Cyd i Rieni, mae gennych chi hawl i gael copi ohono.

Mae'n rhaid i chi a'ch partner roi o leiaf wyth wythnos o rybudd (gan gynnwys y dyddiad) eich bod yn bwriadu dod â'r Absenoldeb Mamolaeth/Mabwysiadu i ben yn gynnar a dechrau'r cyfnod o Absenoldeb ar y Cyd i Rien.

Mae hwn yn 'rhybudd ymrwymol' nad oes modd ei newid fel arfer.

Mae modd gweld beth i'w gynnwys yn eich cais a'r eithriadau o ran rhybuddiadau ymrwymol yn www.nasuwat.org/shared-parental-leave.

A close-up photograph of a person's hands writing in a notebook. The person is wearing a light blue button-down shirt. They are holding a silver and black pen over an open notebook with white pages. The background is softly blurred, showing more of the person's shirt and a desk surface.

**Rhoi gwybod i'ch
cyflogwr**

Trefnu absenoldeb



Mae gennych chi hawl i gyflwyno tri rhybudd ar wahân i drefnu absenoldeb yn ystod blwyddyn gyntaf eich plentyn. Eto, mae'n rhaid i'r rhain gael eu cyflwyno i'ch cyflogwr yn ysgrifenedig o leiaf wyth wythnos y byddant yn dechrau.

Mae'n rhaid cymryd eich absenoldeb mewn wythnosau cyflawn, naill ai mewn un bloc parhaus (h.y. chwech wythnos), neu mewn bloc wedi'i rannu (h.y. tair wythnos i ffwrdd, tair wythnos o weithio, ac yna tair wythnos arall i ffwrdd).

Ni all eich cyflogwr wrthod cais am floc parhaus, ond gallai wrthod cais am floc wedi'i rannu. Os gwrthodir cais am absenoldeb wedi'i rannu, mae cyfanswm yr absenoldeb yn troi'n floc parhaus yn awtomatig oni bai eich bod yn tynnu'r cais yn ôl.

Os byddwch yn newid eich meddwl ynghylch sut rydych chi am rannu'r cyfnod o Absenoldeb ar y Cyd i Rieni, bydd rhaid i chi roi gwybod i'ch cyflogwr yn ysgrifenedig, gan nodi dyddiad gwreiddiol yr absenoldeb, a'r modd rydych chi'n bwriadu rhannu'r cyfnod o Absenoldeb ar y Cyd i Rieni nawr. Mae'n rhaid i'r ddau riant lofnodi i gadarnhau eu bod yn cytuno ar hyn.

Os rhoddir rhybudd bod y fam neu'r sawl sy'n mabwysiadu yn dod â'r 39 wythnos o Dâl Mamolaeth/Mabwysiadu statudol neu Lwfans Mamolaeth i ben, gellir cymryd unrhyw wythnosau sy'n weddill fel Absenoldeb ar y Cyd i Rieni (hyd at uchafswm o 37).

Yn gyffredinol, dylai unrhyw un sy'n gymwys i gael cyfnod o Absenoldeb ar y Cyd i Rieni fod yn gymwys i gael Tâl ar y Cyd i Rieni, ar yr amod eu bod wedi ennill mwy na'r 'Terfyn Enillion Isaf' yn yr wyth wythnos yn arwain at y 15fed wythnos cyn dyddiad disgwylidig yr enedigaeth, ac yn cynnwys yr wythnos honno (ar y dyddiad y cewch eich paru â'ch plentyn mabwysiedig).

Mae'n rhaid i chi a'ch partner roi o leiaf wyth wythnos o rybudd i'ch cyflogwr eich bod yn bwriadu hawlio Tâl ar y Cyd i Rieni. Dylai hyn gynnwys manylion pwy fydd yn ei gael, sut fydd yn cael ei rannu, y cyfanswm a'r hyd, yn ogystal â chaniatâd gan eich partner.

Telir hyn ar gyfradd o £139.58 yr wythnos (o fis Mawrth 2016 ymlaen) neu 90% o'ch enillion wythnosol arferol, pa bynnag un sydd isaf.

Os bydd eich cyflogaeth yn dod i ben tra byddwch yn gymwys i gael Tâl ar y Cyd i Rieni, yna bydd unrhyw wythnosau sy'n weddill yn daladwy oni bai eich bod yn dechrau gweithio i rywun aral.

Tâl ar y Cyd i Rieni



A close-up photograph of various colorful wooden toys. In the foreground, there are several wooden blocks: one with a large white number '5', one with a green plus sign, and one with a red right-angle symbol. There are also blue and red beads, and a yellow ring. The background is slightly blurred, showing more toys.

Hawliau eraill

Yn ystod eich cyfnod o Absenoldeb ar y Cyd i Rieni, gwarchodir telerau ac amodau eich cyflogaeth.

Mae'n anghyfreithlon i'ch cyflogwr eich trin yn llai ffafriol am eich bod wedi cymryd Absenoldeb ar y Cyd i Rieni.

Ni chaiff eich cyflogwr newid telerau ac amodau eich cyflogaeth yn ystod eich cyfnod o Absenoldeb ar y Cyd i Rieni heb eich cytundeb chi.

Hefyd ni ellir eich diswyddo o gyflogaeth na'ch trin yn annheg oherwydd eich Absenoldeb ar y Cyd i Rieni.

Os byddwch yn dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod o Absenoldeb ar y Cyd i Rieni sy'n llai na 26 wythnos, mae gennych chi'r hawl i ddychwelyd i'r un swydd. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau eithriadol, mae'n bosib na fydd hynny'n wir os byddwch yn cael dros 26 wythnos.

Os yw eich cyflogwr yn bwriadu gwneud newidiadau a allai effeithio ar eich cyflogaeth, dylech gysylltu â'r NASUWT ar unwaith.

NASUWT  **CYMRU**
Undeb yr Athrawon The Teachers' Union

Ffôn: 029 2054 6080

E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuw.org.uk

Gwefan: www.nasuw.org.uk